# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2235 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Date | 21/01/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stephen Thomas (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Phil Edwards (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Tanya Evans (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Alyson Hoskins (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Anne-Louise Clark (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Emma Bennett (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4225 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| Item ID | 4226 |
| --- | --- |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. |

| Item ID | 4227 |
| --- | --- |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 4228 |
| --- | --- |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020, yn cynnwys:-<br><br>**<u>DIWEDDARIAD CRONFA GOFAL INTEGREDIG 2019/20</u>**<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y Gronfa Gofal Integredig, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau y bydd y cyllid yn parhau am y flwyddyn nesaf a, hyd yn oed er y byddai ychydig yn llai o gyllid na’r disgwyl, roedd y Cyfarwyddwr yn teimlo’n gysurus yn parhau i ddarparu gwasanaethau ar y sail honno.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau’r cofnodion. |

| Item ID | 4240 |
| --- | --- |
| Item Title | Adroddiad Cynnydd Rhianta Corfforaethol 2020-21 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant a gyflwynwyd i hysbysu Aelodau am gynnydd Bwrdd Rhianta Corfforaethol Blaenau Gwent drwy gydol 2020 i wella deilliannau a gwasanaethau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Plant am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo a hysbysodd Aelodau y cafodd y cynllun gweithredu ei ddatblygu ym mis Chwefror 2020, cyn y pandemig Covid, a chafodd rhai mesurau eraill eu rhoi ar waith a all fod wedi disodli rhai o’r camau gweithredu oherwydd blaenoriaethau.<br><br>Yng nghyswllt Blaenoriaeth Allweddol 2, holodd y Cadeirydd os cafodd y cyfarfodydd Aml-asiantaeth ar Gamfanteisio ar Blant (MACE) eu cynnal yn chwarterol drwy gydol y pandemig. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod cyfarfodydd MACE wedi parhau gan eu bod yn rhan o’r strwythurau diogelu sydd yn eu lle o fewn Gwent. Mae’r Gyfarwyddiaeth yn cymryd cyfrifoldebau diogelu yn ddifrifol iawn, yn neilltuol |

| | |
|---|---|
| | drwy'r pandemig, gan na fyddai plant yn cael eu gweld mor rheolaidd ag a fyddent drwy'r system Addysg. Mae strwythurau a systemau presennol yn parhau i fod ar waith.<br>Holodd Aelod am gefnogaeth ar gyfer gofalwyr ifanc. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant mai plant sy'n derbyn gofal yw ffocws yr adroddiad hwn ond hysbysodd yr Aelod fod yr Awdurdod yn ystyried gofalwyr ifanc fel dysgwyr bregus a chafodd pob un ohonynt gynnig lle mewn hybiau ysgol drwy gydol y pandemig Covid. Mae'r Tîm Teuluoedd yn Gyntaf yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i ofalwyr ifanc ac maent wedi cymryd rhan weithgar mewn cysylltu gyda'r cohort hwnnw. Lle roedd angen, cynhaliwyd ymweliadau wyneb i wyneb i sicrhau y cefnogid y cohort o blant. Gwnaed ymdrechion hefyd i ddod â'r cohort hwn o blant ynghyd, yn rhithiol, fel grŵp, fel y gallent gefnogi ei gilydd.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am ddarparu gliniaduron i blant sy'n derbyn gofal, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y gynhaliwyd archwiliad gyda rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr plant sy'n derbyn gofal i ganfod os oedd angen gliniaduron neu gysylltiad Wi-Fi. Prynwyd gliniadur ar gyfer pob plentyn mewn aelwydydd oedd angen hynny yn ystod Mawrth ac Ebrill 2020 fel eu bod yn barod i fynd ar-lein gyda'u hysgolion. Mae'r Tîm wedi gweithio'n agos gydag ysgolion a gweithwyr cymdeithasol i sicrhau y gallai'r plant hyn wneud dysgu ar-lein.<br><br>Cyfeiriodd Aelod ar Flaenoriaeth Allweddol 3, Pwynt 3 – Hyrwyddo 'Ysgolion Cyfeillgar i Blant sy'n Derbyn Gofal' a theimlai y dylid newid y geiriad yn y pwynt gweithredu hwn. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod Ysgolion Cyfeillgar i Blant sy'n Derbyn Gofal yn ddogfen bolisi, fodd bynnag gellid newid y gair 'hyrwyddo' i 'sicrhau fod ysgolion yn yn cydymffurfio â'r polisi'. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant ei bod yn ddyletswydd ar ysgolion i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal. Mae Pwynt Gweithredu 3 yn cyfeirio at ganllawiau Blaenau Gwent, a gafodd eu creu ar yr hyn sy'n arfer gorau, ar gyfer pob ysgol sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal. Cafodd y canllawiau eu mabwysiadu ac maent yn cael eu profi mewn ardal beilot ym Mlaenau Gwent gyda'r disgwyliad y byddai'r canllawiau'n cael eu hymestyn i bob ysgol ym Mlaenau Gwent. Y nod yw sicrhau fod ysgolion yn mabwysiadu pob rhan o'r canllawiau er mwyn sicrhau statws 'arfer gorau' i sicrhau fod strwythur cadarn yn ei le ac i gael adnodd y gallai ysgolion gyfeirio ato i sicrhau eu bod yn gwneud eu gorau glas ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal.<br><br>Holodd Aelod am gasglu'r holl wybodaeth o wahanol adrannau a sefydliadau partner yn amserol i roi mesur cywir o'r holl wybodaeth. Holodd hefyd os y cyflwynir adroddiad pellach i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn ac yn gyfrwng i sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ei dwyn ynghyd drwy ymgysylltu â phartneriaid. Mae grwpiau gorchwyl a gorffen hefyd yn gryf wrth ymgysylltu â phartneriaid. Yng nghyswllt yr wybodaeth perfformiad addysg sydd ar goll, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn am wybodaeth ar ddysgwyr eleni, byddai angen sefydlu pa wybodaeth fyddai ei hangen yn y dyfodol. Rhoddir |

| | |
|---|---|
| | adroddiad blynyddol ar wybodaeth rhianta i'r Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr a chaiff yr wybodaeth ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu pan mae ar gael.<br><br>Dywedodd Aelod fod hwn yn adroddiad cadarnhaol a chanmolodd y staff am eu gwaith caled dros y 12 mis diwethaf a holodd os yw myfyrwyr sy'n mynychu coleg yn cael eu cynnwys yn narpariaeth offer TGCh. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y ddarpariaeth TGCh yn cynnwys myfyrwyr sy'n mynychu colegau ac un myfyriwr sy'n mynychu'r brifysgol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cydnabod y cynnydd a wnaed drwy gydol 2020 a gwaith yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid i wella deilliannau ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal fel rhan o'n cyfrifoldebau rhianta corfforaethol. |

| Item ID | 4241 |
|---|---|
| Item Title | Prydau Cymunedol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a gyflwynwyd i roi gwybodaeth ar y symud o'r gwasanaeth Prydau Cymunedol a'r cynnydd a wnaed ers symud o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Gofynnodd Aelod am eglurdeb ar union nifer y gyrwyr a'r faniau. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod dau yrrwr yn mynd mas yr un pryd mewn un fan ac yn ddilynol cafodd y swydd cyfnod sefydlog ei gostwng a chaniatawyd i dri gyrrwr orffen. Drwy adleoli, defnyddiwyd gyrrwr ychwanegol i gefnogi'r gwasanaeth o hyn ymlaen.<br><br>Gofynnodd Aelod, gyda chynnydd galw sylweddol o 36% ar gyfer y gwasanaeth, a oedd capasiti yn y gwasanaeth i fynd ag ef ymlaen i ble mae'r Gyfarwyddiaeth angen iddo fod i wrthbwyso unrhyw bwysau cyllideb. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r weledigaeth yw datblygu model i wneud iddo weithio o fewn yr gwasanaeth Opsiynau Cymunedol, lle byddai pobl gydag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl yn mynd mas gyda'r gyrwyr a dysgu sgiliau newydd yn nhermau dosbarthu'r prydau. Er mwyn parhau i ddatblygu'r model a'r gwasanaeth mae angen deall cost sylfaenol darparu'r gwasanaeth i edrych ar gyflogi staff ychwanegol os yw'r galw am y gwasanaeth yn cynyddu ymhellach. Cyflwynir adroddiad cyllideb llawn i'r Pwyllgor Craffu pan ddaw'r wybodaeth ar gael.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn Aelod am brydau twym a phrydau wedi rhewi, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gwasanaeth yn darparu prydau twym a hefyd brydau wedi'u rhewi, yn aml brydau twym yn ystod yr wythnos a phrydau wedi rhewi ar benwythnosau. Efallai y gellid cyflwyno gwasanaeth ychwanegol tebyg i frechdanau yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd Aelod os cysylltwyd ag ysbytai i hyrwyddo'r gwasanaeth i gleifion sy'n cael eu rhyddhau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gwasanaeth yn cael ei ailfrandio a'i farchnata ar hyn o bryd, fodd bynnag mae'r pandemig wedi arafu'r broses hon ond mae gweithwyr cymdeithasol yn hyrwyddo darpariaeth gwasanaeth mewnol. Pan gaiff cleifion eu rhyddhau o ysbyty maent yn cael cynnig prydau cymunedol yn hytrach na chael prydau o'r sector preifat.<br><br>Teimlai Aelod fod ailfrandio yn syniad da i'w wneud yn fwy masnachol a gallai annog y bobl hynny a allai fforddio talu i ddefnyddio'r gwasanaeth a chodi refeniw. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod angen bod yn gystadleuol gyda'r sector preifat ond mai ar hyn o bryd y ffocws yw dynodi'r costau llawn i redeg y gwasanaeth ac edrych ar gyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol a bod yn llawer mwy masnachol o'r farchnad i fod yn llwyddiannus.<br><br>Yng nghyswllt monitro cadarn ar y gyllideb, holodd Aelod os yr ymchwiliwyd defnydd cerbydau trydan gyda'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y cynhaliwyd trafodaethau ac y byddent yn cael eu hymchwilio ymhellach pan mae cyfle yn codi i newid y cerbydau, ond byddai hyn yn dibynnu ar gostau gan fod y gwasanaeth mewn diffyg.<br><br>Dywedodd Aelod ei bod yn dda gweld cynnydd yn y gwasanaeth a chyfeiriodd at gapasiti i ddosbarthu prydau ar amser rhesymol ac ar lefel uwch i gael cyllideb gytbwys. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, unwaith fod cyllideb gytbwys, y gallent wedyn edrych i gynyddu ymhellach y nifer o brydau a gaiff eu dosbarthu ac efallai gyflogi staff ychwanegol a chynyddu nifer y cerbydau dosbarthu fel y gallai prydau gael eu dosbarthu ar amser rhesymol. Y nod yn gyntaf yw cael cyllideb gytbwys ac yna geisio cynyddu'r galw am y prydau eto i gael gwarged. Gyda phosibilrwydd y byddai nifer y prydau yn gostwng ar ôl Covid, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y gwasanaeth ar hyn o bryd yn ymdopi gyda'r staff a'r llwyth gwaith presennol. Byddid yn monitro gostyngiadau gymharol a'u cynllunio i'r gyllideb i barhau i redeg y gwasanaeth ac os yn bosibl i ehangu'r gwasanaeth yn y dyfodol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at safleoedd cartref gofal o amgylch y fwrdeistref a gofynnodd os y gellid cysylltu gyda phreswylwyr y safleoedd i annog grwpiau o bobl i ddefnyddio'r gwasanaeth gan y medrid dosbarthu nifer o brydau i un lleoliad canolog. Gellid hefyd ystyried disgownt ar nifer y prydau a archebir. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod opsiynau tebyg i wasanaeth brechdanau y gall pobl fod ei eisiau yn ychwanegol at y pryd a dderbyniant yn cael eu hystyried ar gyfer datblygu'r gwasanaeth.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am weithredu'r gwasanaeth fel busnes ynddo'i hun, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y rhoddwyd ystyriaeth i symud y gwasanaeth i fodel cwmni cymdeithasol |

| | |
|---|---|
| | rywbryd yn y dyfodol ond mae'r gwasanaeth mewn rhedeg fel diffyg ar hyn o bryd ac felly gallai fod yn flwyddyn neu ddwy cyn y byddai'r gwasanaeth mewn sefyllfa gysurus i fynd lawr y llwybr hwn.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y rhagolwg llif arian a holodd am y ffigur costau canolog. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn anodd dod yn sefydliad masnachol gyda'r costau canolog hyn sy'n cynnwys gwasanaethau cyfreithiol, cyfrifeg, ariannol a gwasanaethau datblygu sefydliadol. Gallai symud at fath gwahanol o fodel tebyg i'r model cymdeithasol neu gael corff trydydd sector i'w redeg fel busnes roi'r cyfle i ostwng y costau canolog hyn yn neilltuol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod Aelodau'n craffu yr adroddiad ac yn gwerthuso'r argymhellion ar gyfer blaengynllunio hirdymor ar y gwasanaeth (adran 6.4). |

| Item ID | 4242 |
|---|---|
| Item Title | Defnyddio Ymgynghorwyr |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i Aelodau, yn ymwneud â gwariant yn ystod 2018/2019 a 2019/2020 ar ddefnydd ymgynghorwyr i gefnogi, atodi ac ategu gwaith Swyddogion ar draws y Cyngor.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo, sy'n cynnwys manteision cyflogi ymgynghorwyr ar gyfer cyfnodau byr a allai fod yn ddefnydd effeithlon o adnoddau'r Cyngor.<br><br>Dywedodd Aelod ei bod yn dda gweld mai dim ond lle roedd angen hynny y defnyddid ymgynghorwyr, a theimlai y dylai'r Cyngor edrych ar ei staff ei hun cyn cyflogi ymgynghorwyr. Yng nghyswllt ymgynghorwyr ar gyfer cwynion, teimlai na ddylai'r ffigurau hyn gael eu cynnwys yn yr Atodiad gan eu bod yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Yng nghyswllt cwynion cam dau, holodd Aelod os y gellid eu cynnal drwy ddull gweithredu partneriaeth gydag awdurdodau lleol eraill. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y gwnaed hynny weithiau ond yr anhawster yw y gallai cwynion ail gam olygu llawer iawn o waith a phan gysylltir â hwy weithiau ni allai awdurdodau lleol wneud y gwaith oherwydd problemau capasiti ar y pryd.<br><br>Yng nghyswllt cwynion yn erbyn y Gyfarwyddiaeth, dywedodd Aelod ei bod yn hanfodol ymchwilio cwynion yn iawn i sicrhau canlyniad addas ar gyfer yr achwynydd a'r Gyfarwyddiaeth gan y gallai cwyn arwain at achos llys hirfaith lle gallai'r costau i'r Awdurdod fod yn fwy na chostau defnydd dechreuol ymgynghorwyr. Mae'r cyngor arbenigol a roddir gan ymgynghorwyr mewn meysydd fel Mabwysiadu yn werthfawr tu hwnt a |

| | |
|---|---|
| | theimlai fod y cyngor cyfreithiol a roddir yn y rhan fwyaf o achosion yn ddefnydd da o arian i ddiogelu'r Awdurdod.<br><br>Adleisiodd y Cadeirydd y sylwadau hyn a dywedodd ei fod yn adroddiad tryloyw ac y bernid bod y ffioedd ymgynghorwyr yn angenrheidiol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi'r defnydd o ymgynghorwyr. |

| Item ID | 4243 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 11 Mawrth 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Hysbysodd y Cadeirydd am newid arfaethedig i'r eitemau agenda, ac ar ôl trafodaeth fer<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef gohirio'r adroddiad ar Strategaeth Byw'n Annibynnol yn y 21ain Ganrif a chyflwyno adroddiad ar Ostwng yn Ddiogel y Nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal i'r cyfarfod ar 11 Mawrth 2021. |